# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni

Noddir gan Mark Isherwood AS

Dyddiad: 11 Gorffennaf 2022, 9:30 – 11:00
Lleoliad: Zoom

## Yn bresennol

**Deiliaid Swyddi'r Grŵp Trawsbleidiol**

Mark Isherwood AS (Cadeirydd)
Sioned Williams AS

**Rhanddeiliaid**

Ben Saltmarsh (NEA), Hayden Banks (NEA), Mike Potter (NEA), Jane Hutt AS (y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol), Ben Gascoyne (GIG Cymru), Claire Durkin (Ymddiriedolwr NEA), Crispin Jones (Gwerin Management), David Cowdrey (Sefydliad Elusennol MCS), Deian Timms (Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru), Faye Patton (Gofal a Thrwsio Cymru), Ffion Haf (Plaid Cymru), Francesca Kirtley-Paine (Liquid Gas UK), Gavin Dick (y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl Genedlaethol, NRLA), George Jones (Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru), Ioan Bellin (ar ran Rhys ab Owen AS) , Jack Wilkinson-Dix (yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, EST), Jo Harry (Gofal a Thrwsio Cymru), Jo Seymour (Cymru Gynnes), Jonathan Cosson (Cymru Gynnes), Jocelle Lovell (Cwmpas), Josh Lovell (NRLA), Kate Calladene (E.ON Energy), Ken Cronin (Senedd), Lee Phillips (MaPS) , Liz Lambert (Cyngor Caerdydd), Matthew Cole (y Sefydliad Banc Tanwydd), Meilyr Tomos (Cyngor Gwynedd), Neville Rookes (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Richard Hauxwell-Baldwin (Sefydliad Elusennol MCS), Simon Lannon (Prifysgol Caerdydd), Steffan Evans (Sefydliad Bevan), Stephen Chamberlain (Llywodraeth Cymru), Tash Wynne (Marie Curie), William Jones (Cyngor ar Bopeth Ceredigion)

**Ymddiheuriadau**

Julie James AS (y Gweinidog Newid Hinsawdd)

## Crynodeb o'r drafodaeth

1. **Croeso a chyflwyniadau**

   - **Mark Isherwood AS (Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol):** Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol, gan ddarparu trosolwg o agenda'r cyfarfod. Yn sgil yr argyfwng ynni a chostau byw, nodwyd bod pobl yn parhau i gymryd mesurau enbyd i gyfyngu ar eu defnydd, gan fynd heb wres a phŵer, a chan gronni dyledion. Mae amcangyfrifon newydd wedi'u modelu gan Lywodraeth Cymru yn dangos y gallai hyd at 45 y cant o aelwydydd yng Nghymru fod mewn tlodi tanwydd erbyn hyn – gan gynnwys 98 y cant o'r holl aelwydydd incwm is – yn dilyn y cynnydd yn y cap ar brisiau ynni o 1 Ebrill. Yn ogystal, mae llawer o aelwydydd mewn cymunedau gwledig wedi gweld prisiau olew a nwy petrolewm hylifedig (LPG) yn dwblu, os nad yn treblu, yn ystod y misoedd diwethaf. Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu cadarnhau fel cofnod gwir a chywir gan Jonathan Cosson (Cymru Gynnes) a Lee Phillips (MaPS).

- **Ben Saltmarsh (Pennaeth Cymru, NEA, ac Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol):** Darparodd Ben ddiweddariad ar y datblygiadau sydd wedi dod i'r amlwg ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Trawsbleidiol ym mis Mawrth. Roedd hyn yn cynnwys rhybudd ynghylch y disgwyliadau y bydd prisiau ynni'n codi'n sylweddol eto ym mis Hydref, ac o bosibl ym mis Ionawr, gyda'r amcangyfrifon diweddaraf yn rhagweld biliau o dros £3,200 y flwyddyn ar gyfartaledd. Darparodd Ben grynodeb hefyd o'r cyhoeddiadau a wnaed yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU ac Ofgem, gan sôn am alwadau parhaus NEA ar Lywodraeth y DU i ddarparu cymorth sy'n gymesur â'r argyfwng, a'r angen i Ofgem ddiogelu defnyddwyr sy'n agored i niwed a defnyddwyr incwm isel y gaeaf hwn a thu hwnt (gan gynnwys drwy gymryd camau i leihau rhagdaliadau sefydlog, peidio â chyflwyno addasiadau cap chwarterol ar brisiau y gaeaf hwn, a'r angen i ddiogelu prisiau mewn modd mwy cadarn, drwy ddefnyddio tariff cymdeithasol).

## 2. Sylwadau gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

- Ymunodd y Gweinidog â'r Grŵp Trawsbleidiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ar hyn o bryd, ac i ateb cwestiynau.
- Croesawodd y Gweinidog becyn cymorth diweddar Llywodraeth y DU, sy'n cynnwys penderfyniad i ddiwygio'r Ad-daliad Biliau Ynni, gan ddyblu'r taliad i £400 a'i wneud yn daliad nad yw'n ad-daladwy, ynghyd â darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer aelwydydd incwm isel. Pwysleisiodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn parhau i alw am dariff cymdeithasol is ar gyfer aelwydydd incwm isel, a chamau i ddileu costau polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol o filiau ynni domestig. Hyd yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb i'r galwadau hynny.
- Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd, er bod Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor â rhesymeg Ofgem parthed addasu'r cap ar brisiau yn chwarterol, mae'r cynigion i gyflwyno'r addasiadau eleni yn destun pryder gwirioneddol. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd hi a'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn ysgrifennu at Ofgem.
- Ailadroddodd y Gweinidog y ffaith bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wrando ar randdeiliaid am yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud hefyd i gefnogi aelwydydd mewn angen o fewn terfynau'r adnoddau sydd ar gael iddi, ac y bydd yn gwneud hynny. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd yn cyhoeddi'n fuan sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwella ei Chynllun Cymorth Tanwydd drwy ehangu cymhwysedd a sicrhau bod yr arian yn cael ei dalu cyn y gaeaf. Croesawodd y ddadl a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y Senedd.
- Nododd y Gweinidog hefyd y Cynllun Talebau Tanwydd cenedlaethol newydd, sydd â gwerth o £4 miliwn ac sy'n cynorthwyo aelwydydd y mae'n rhaid iddynt dalu ymlaen llaw am eu hynni. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys cymorth ar gyfer talebau rhagdalu, ochr yn ochr â chronfa wres ar gyfer tanwyddau oddi ar y grid, gan gynnwys cyflenwad o 500 litr o olew.
- Nododd y Gweinidog hefyd mai'r ffordd orau y gall Llywodraeth Cymru helpu aelwydydd i arbed arian a lleihau eu hôl troed carbon yw gwella effeithlonrwydd ynni domestig. Cadarnhaodd ei bod yn parhau i ddatblygu ei chynlluniau ar gyfer yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a'i bod yn disgwyl gwneud cyhoeddiad ym mis Medi.
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu ei Chynllun Tlodi Tanwydd, ac mae wedi gofyn i'r Panel Cynghori ar Dlodi Tanwydd sicrhau bod y mater hwn yn flaenoriaeth yn y misoedd nesaf.

**Sesiwn holi ac ateb gyda'r Gweinidog**

- **William Jones, Cyngor ar Bopeth Ceredigion**: Gofynnodd William a fydd preswylwyr cartrefi mewn parciau yn cael eu cynnwys yn nhaliad nesaf Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn y broses o gadarnhau'r manylion, ac y bydd yn gwneud cyhoeddiad ar y mater yr wythnos nesaf.

- **David Cowdrey, MCS**: Gofynnodd David a fyddai Llywodraeth Cymru yn barod i ysgrifennu at y Trysorlys at ddibenion symud ardollau amgylcheddol (hynny yw, y Tariff Cyflenwi Trydan a'r Contractau Gwahaniaeth yn benodol) i faes trethiant cyffredinol er mwyn lleihau biliau, gan ddod â'r budd mwyaf i'r rhai sydd ar yr incwm isaf. Ailadroddodd y Gweinidog y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny a'i bod yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU am ragor o gymorth (gan gynnwys, er enghraifft, cynyddu'r cymorth a ddarperir drwy'r gostyngiad Cartrefi Clyd, dileu dyledion ynni, a chynyddu cyfraddau'r lwfans tai lleol).
- **Meilyr Tomos, Cyngor Gwynedd:** Gofynnodd Meilyr sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ffynonellau data gwahanol i dargedu cymorth. Nododd Stephen Chamberlain y cynnydd a wneir yn y maes hwn, gan gynnwys gwaith ar y Dangosfwrdd Tlodi Tanwydd gohiriedig, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan.
- **Claire Durkin, Ymddiriedolwr NEA**: Croesawodd Claire y gefnogaeth sydd ar gael a phwysleisiodd bwysigrwydd cyfathrebu – er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith aelwydydd o'r hyn sydd ar gael ac er mwyn rhannu'r hyn y mae Cymru yn ei wneud gyda gwledydd eraill. Croesawodd y Gweinidog hyn a chadarnhaodd y bydd yn trafod â swyddogion sut y gall Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o'i hadnoddau cyfathrebu, gan gynnwys drwy ei hymgyrch 'Hawliwch yr hyn sy'n Ddyledus i Chi', drwy ei phartneriaid, a thrwy sianeli eraill.
- **Jo Harry, Gofal a Thrwsio Cymru**: Mynegodd Jo bryder am y gwaith amrywiol angenrheidiol y mae gofyn ei wneud i insiwleiddio a thrin adeiladau hŷn a thraddodiadol, a'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu. Roedd y Gweinidog yn rhannu'r pryderon hyn, a nododd fod y mater hwn yn fater sy'n berthnasol ar draws adrannau a sectorau.
- **Sioned Williams AS:** Myfyriodd Sioned ar ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gan ofyn pryd y byddai'r cynigion ar gyfer yr iteriad nesaf yn debygol o gael eu cyhoeddi. Cadarnhaodd Stephen Chamberlain fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y 67 o ymatebion unigol a gafodd i'w hymgynghoriad, ynghyd â'r adborth a gafwyd yn sgil y gweithdai a gynhaliwyd gyda NEA. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud cyhoeddiad yn y Senedd ar 14 Medi, ochr yn ochr â'r ddadl ar ymchwiliad y Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio dechrau'r broses gaffael ar gyfer y Rhaglen nesaf yn fuan wedi hynny. Nodwyd bod llithriad wedi digwydd, ond bod y Llywodraeth yn parhau i fod yn hyderus y gall roi'r Rhaglen nesaf ar waith yn 2023.
- **Crispin Jones, Gwerin Management**: Gofynnodd Crispin a fyddai modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn well er mwyn datblygu sgiliau a chadwyni cyflenwi yng Nghymru. Nododd y Gweinidog y byddai'n mynd â'r neges hon yn ôl at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Newid Hinsawdd.
- **Steffan Evans, Sefydliad Bevan** Nododd Steffan nad diffyg ymwybyddiaeth yw'r unig rwystr i gael mynediad at y pecynnau cymorth amrywiol sydd ar gael ar hyn o bryd. Gofynnodd pa waith sy'n mynd rhagddo i wella gweinyddiaeth y Cynllun Cymorth Tanwydd a pha ddata, os o gwbl, sydd ar gael ynghylch y taliad diwethaf. Mewn dadl yn y Senedd yr wythnos diwethaf, cadarnhaodd y Gweinidog y bydd yn cael y ffigurau diweddaraf ac yn archwilio unrhyw rwystrau sy'n bodoli o ran manteisio ar becynnau cymorth.

## 3. Matthew Cole, Pennaeth y Sefydliad Banc Tanwydd

- Cafwyd cyflwyniad gan Matthew Cole ar Gynllun Talebau Tanwydd cenedlaethol newydd Llywodraeth Cymru, sydd â gwerth o £4 miliwn ac sy'n helpu aelwydydd mewn argyfwng tanwydd ledled Cymru sydd angen talu ymlaen llaw am eu hynni.
- Soniodd Matthew am effeithiau dinistriol yr argyfwng tanwydd, gan amlinellu sut y bwriedir i'r Cynllun weithredu. Mae'r model yn seiliedig ar ymddiriedaeth, ac mae'n cynnwys rhai rheolaethau clir iawn. Bydd yn cael ei gefnogi gan bartneriaid ledled Cymru, gyda'r bwriad o sicrhau cymorth i bobl ar yr un diwrnod.

- Ar hyn o bryd mae gan y Sefydliad Banc Tanwydd saith partner cenedlaethol ac wyth partner lleol yng Nghymru. Bydd y cyllid yn rhoi sicrwydd iddynt ac yn caniatáu i'r Sefydliad Banc Tanwydd ehangu ei rwydwaith er mwyn sicrhau bod darpariaeth frys ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol erbyn mis Hydref.
- **William Jones, Cyngor ar Bopeth Ceredigion**: Gofynnodd William sut y dylai sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth gofrestru fel partner. Eglurodd Matthew y dylai sefydliadau gysylltu â'r Sefydliad Banc Tanwydd yn uniongyrchol. Gofynnodd William hefyd am ragor o wybodaeth ynghylch y cymorth argyfwng sydd ar gael i'r rhai sy'n dibynnu ar olew ac LPG drwy'r Gronfa Gwres. Eglurodd Matthew y bydd y Sefydliad Banc Tanwydd yn prynu'r tanwydd yn uniongyrchol ar gyfer aelwydydd ar ôl iddynt basio'r broses ddilysu, ac yn gwneud trefniadau dosbarthu (fel sy'n digwydd gyda'r cynllun yn yr Alban).
- **Ben Saltmarsh, NEA:** Gofynnodd Ben a fydd y dyfarniadau a wneir o dan y Gronfa Gwres yn talu'r gost lawn ar gyfer dosbarthu 500 litr o olew, sef y cyflenwad lleiaf sy'n ofynnol yn aml. Cadarnhaodd Matthew mai dyna yw'r nod, yn sicr.

**4. <u>Ken Cronin, Prif Swyddog Gweithredol Sefydliad Dosbarthu Tanwydd y DU ac Iwerddon (UKIFDA)</u>**

- Rhoddodd Ken gyflwyniad ar gostau cynyddol olew, rhai o'r heriau sy'n wynebu dosbarthwyr ac aelwydydd ar hyn o bryd, a'r cymorth sydd ar gael i gwsmeriaid incwm isel sy'n agored i niwed.
- Darparodd Ken grynodeb o strwythur a threfniadau prisio'r diwydiant, gan nodi bod tua 9 y cant o gartrefi Cymru yn cael eu gwresogi drwy olew, o gymharu â 5 y cant o holl gartrefi'r DU.
- Mae gan UKIFDA tua 100 o aelodau dosbarthu yn y DU. Mae 14 ohonynt yn gweithredu yng Nghymru ac wyth ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae'r mwyafrif yn fusnesau teuluol, sydd â 3-5 o lorïau dosbarthu.
- Eglurodd Ken fod y farchnad olew gwresogi wedi'i strwythuro'n wahanol iawn i'r prif gyflenwad nwy. Nid oes gan gwsmeriaid gontractau tymor hir, ac maent yn gallu siopa o gwmpas pan fydd angen cyflenwad arnynt. Mae'r farchnad yn gystadleuol iawn, ac mae gan ddosbarthwyr weledydd cyfyngedig o ran archebion yn sgil hynny.
- Eglurodd Ken fod prisiau olew wedi amrywio rhwng 40c a 60c fesul litr dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn ystod y pandemig, syrthiodd y pris i oddeutu 30c y litr ym mis Mai 2020, ond cododd eto i oddeutu 60c ar ddiwedd 2021. Fodd bynnag, yn sgil argyfwng Wcráin, mae prisiau wedi ffrwydro, gan gyrraedd mwy na £1.30 y litr yn ystod y misoedd diwethaf. Mae prisiau bellach wedi gostwng, ond maent yn parhau i fod yn ansefydlog ac yn sylweddol uwch na phrisiau arferol y diwydiant, ar lefel o tua £1 y litr.
- Yn fras, amlinellodd Ken gynnwys Siarter Cwsmeriaid a Chod Ymarfer UKIFDA, gan nodi bod llawer o ddosbarthwyr yn cynnig y gallu i ledaenu taliadau ac yn cynnal cynllun blaenoriaeth tywydd oer ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed yn ystod y gaeaf. Mae UKIFDA hefyd yn annog y defnydd o glybiau prynu, lle bo modd. Yn aml, fodd bynnag, nid yw dosbarthu olew ar raddfa lai yn ymarferol yn ystod y gaeaf, yn sgil costau cynyddol a phwysau am fwy o gyflenwadau yn y cyfnodau prysuraf. Ar gyfartaledd, mae defnyddiwr yn defnyddio 2000 litr y flwyddyn, ac yn defnyddio 70 y cant o'r olew hwnnw rhwng mis Hydref a mis Mawrth.
- Nododd Ken ei fod yn cael trafodaethau gyda'r Sefydliad Banc Tanwydd at ddibenion cydweithio â'r sefydliad ar y Cynllun Talebau Tanwydd cenedlaethol sydd ar ddod.
- **Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol:** Cododd y Cadeirydd gwestiynau cysylltiedig a gafwyd gan etholwyr ynghylch costau uwch a thaliadau dosbarthu sefydlog nad oes modd iddynt eu fforddio. Gofynnodd pa fesurau y mae'r diwydiant yn eu cymryd i amddiffyn defnyddwyr sy'n agored i niwed mewn ardaloedd gwledig y mae eu hopsiynau amgen yn gyfyngedig. Ailadroddodd Ken y ffaith bod heriau ynghlwm wrth leihau maint cyflenwadau yn y gaeaf, sy'n cynyddu costau ac yn mynd y tu hwnt i gapasiti cyflenwi'r diwydiant. Dylai aelwydydd gael sgyrsiau â dosbarthwyr ynghylch sut i ledaenu eu taliadau ar draws y flwyddyn.

- **William Jones, Cyngor ar Bopeth:** Myfyriodd William ar brofiadau cleientiaid o ansefydlogrwydd eithafol prisiau ym mis Chwefror a mis Mawrth 2022, ac eglurodd Ken pam y bu’n rhaid i’r diwydiant oedi tan yn nes at y dyddiad dosbarthu cyn rhoi prisiau.

**5. <u>Y cyfarfod nesaf</u>**

Mae’r Grŵp Trawsbleidiol yn bwriadu cynnal cyfarfod arall tua diwedd 2022. Caiff yr Aelodau wybod dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf maes o law.